FFURFLEN FLYNYDDOL 2008

NODIADAU CANLLAW

Incwm dros £500,000

CYNNWYS

	Tudalen
CYFLWYNIAD	**3**
Diogelu data	**5**
RHAN A - GWYBODAETH AM YR ELUSEN	
A1 – Blwyddyn ariannol	**6**
A2 – Incwm a gwariant	**6**
A3 – Cyswllt yr elusen	**7**
A4 & A5 – Cyfeiriadau e-bost yr elusen	**9**
A6 – Gwefan yr elusen	**9**
A7 – Unigolion sy'n ymddiriedolwyr cyfredol	**9**
A8 – Unigolion sy'n ymddiriedolwyr newydd	**11**
A9 – Ymddiriedolwr corfforedig	**12**
A10 & A11 – Ardal gweithredu	**13**
A12 – Gweithgareddau elusennau	**17**
A13 – Prif gyfrif banc/cymdeithas adeiladu'r elusen	**17**
A14 – Dosbarthu elusennau	**18**
RHAN B - GWYBODAETH ARIANNOL	
B1 – Adnoddau	**19**
B2 – Enillion/colledion cydnabyddedig eraill	**23**
B3 – Asedau a rhwymedigaethau	**23**
B4 – Gwybodaeth ychwanegol	**26**
ADRODD AM DDIGWYDDIADAU DIFRIFOL	**27**
NODIADAU	**34-35**

CYFLWYNIAD

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau ar sut i gwblhau Ffurflen Flynyddol 2008 eich elusen ac mae'n diffinio'r termau penodol a ddefnyddir yn y ffurflen.

Mae'r ffurflen y gofynnoch amdani ar gyfer elusennau gydag incwm yn 2008 sy'n fwy na £500,000. Os oedd incwm eich elusen yn 2008 yn £500,000 neu lai, ffoniwch y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol ar 0845 3000 218 i wneud cais am y ffurflen gywir.

Cwblhewch y ffurflen gan ddefnyddio **inc du** a'i dychwelyd i'r Comisiwn Elusennau yn yr amlen a ddarparwyd cyn gynted â phosibl a chyn y dyddiad cyflwyno a ddangosir ar flaen y ffurflen. Os yw diwedd eich blwyddyn ariannol yn adran A1 wedi newid, rhaid i chi gyflwyno'ch ffurflen cyn pen deg mis o'r diwedd blwyddyn ariannol newydd.

Mae'r adrannau ar y ffurflen lle rydym yn argraffu'r data sydd gennym ar hyn o bryd wedi'u marcio â saeth fach las, fel y dangosir yn yr enghraifft isod.

Gwefan gyfredol	Dileu
→ www.acharity.co.uk	→ ☐

Peidiwch â gwneud unrhyw newidiadau mewn llawysgrifen i'r data rhagargraffedig ar y ffurflen oherwydd ni chânt eu prosesu.

Dylech ddefnyddio'r blychau gwyn i ddangos unrhyw newidiadau i'r data sydd gennym ar hyn o bryd neu i roi gwybodaeth newydd. Nodir y rhain gyda saeth fwy, fel yn yr enghraifft isod.

Incwm E	→ £	. 0 0
Gwariant E	→ £	. 0 0

Pa gyfnod ariannol ydy'r ffurflen yn cyfeirio ato?

Dylech gwblhau'r ffurflen ar gyfer cyfnodau ariannol a ddaeth i ben yn 2008. Os yw'r elusen wedi newid ei diwedd blwyddyn ariannol ac, o ganlyniad, nid oes ganddi gyfnod ariannol sy'n dod i ben yn 2008, nid oes rhaid i chi gwblhau'r ffurflen hon. Yn lle hynny, dylech ffonio'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol ar 0845 3000 218 a rhoi manylion i ni am eich diwedd blwyddyn ariannol newydd.

Os yw'r elusen wedi newid ei diwedd blwyddyn ariannol ac, o ganlyniad, mae dau gyfnod ariannol ganddi yn dod i ben yn 2008, mae angen i chi gwblhau'r ffurflen hon ar gyfer y cyntaf o'r cyfnodau ariannol hynny yn unig. Fodd bynnag, rhaid i chi gyflwyno cyfrifon ar gyfer y ddau gyfnod.

^

Beth ydw i'n ei gyflwyno a phryd?

Mae dyletswydd gyfreithiol ar bob elusen gydag incwm o fwy na £10,000 i gyflwyno ei Ffurflen Flynyddol ynghyd â'i hadroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'i chyfrifon i'r Comisiwn Elusennau cyn pen deg mis o ddiwedd ei blwyddyn ariannol.

Mae'n rhaid i elusennau gydag incwm o fwy nag £1 miliwn gwblhau Ffurflen Gwybodaeth Gryno (SIR), sy'n ffurfio Rhan C eu Ffurflen Flynyddol. Mae canllawiau ar wahân ar gyfer y ffurflen hon; gallwch eu darllen ar ein gwefan.

Mae'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno manylion yn cael ei bennu fel a ganlyn. Bydd y cyfnod deg mis ar ôl dyddiad diwedd y flwyddyn ariannol bob amser yn gorffen ar yr un dyddiad yn y mis priodol. Mae hyn yn golygu os mai 30 Medi yw diwedd blwyddyn ariannol yr elusen, mae ganddi tan hanner nos ar 30 Gorffennaf y flwyddyn ganlynol, nid 31 Gorffennaf, i gyflwyno ei Ffurflen Flynyddol a chyfrifon.

Os nad oes unrhyw ddyddiad cyfatebol, bydd diwrnod olaf y mis yn gymwys. Er enghraifft, os mai 30 Ebrill yw diwedd blwyddyn ariannol yr elusen, mae ganddi tan hanner nos ar 28/29 Chwefror y flwyddyn ganlynol i gyflwyno ei dogfennau.

Mae adroddiadau blynyddol a chyfrifon ymddiriedolwyr yn ffordd bwysig o arddangos gweithgareddau elusennau i'r rhai sy'n eu cyllido a hefyd i'r cyhoedd yn gyffredinol. Gall anfon eich dogfennau atom cyn gynted â phosibl ar ôl eich diwedd blwyddyn ariannol eich helpu i gael cyllid.

Bydd y Gofrestr Elusennau yn dangos elusennau sydd heb gyflwyno manylion mewn pryd fel elusennau esgeulus hyd nes ein bod yn derbyn eu dogfennau. Gall hyn effeithio ar gyfraniadau a chyllid o ffynonellau eraill. Os yw elusennau yn methu'n barhaus â chyflwyno eu dogfennau i gadarnhau eu bod yn parhau i weithredu, gallwn eu dileu o'r Gofrestr Elusennau.

Sut ydw i'n cyflwyno fy ffurflen?

Dylech gyflwyno'ch Ffurflen Flynyddol gydag adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r cyfrifon yn yr amlen a ddarparwyd. Nid yw'r amlen yn amlen radbost felly bydd rhaid i chi dalu'r tâl post cywir pan fyddwch yn ei dychwelyd. Os ydych yn colli'r amlen, anfonwch y dogfennau i'r cyfeiriad canlynol: Comisiwn Elusennau, Blwch SP 1300, Lerpwl L69 3BF.

Diogelu data

Bydd unrhyw wybodaeth a rowch i ni yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn unol â'r rheolau ar ddiogelu data. Caiff eich manylion personol eu trin fel manylion preifat a chyfrinachol a'u gwarchod, ac ni chânt eu rhoi i unrhyw un sydd heb gysylltiad â'r Comisiwn Elusennau oni bai eich bod wedi caniatáu i'w rhyddhau, neu mewn amgylchiadau arbennig lle:

- mae rhwymedigaeth **gyfreithiol** arnom i wneud hynny; neu
- pan fydd y Comisiwn yn barnu bod **angen** eu datgelu er mwyn cyflawni ein swyddogaethau statudol yn briodol; neu
- pan fydd y Comisiwn yn barnu bod **angen** eu datgelu er mwyn cydymffurfio â'n swyddogaeth fel y rheolydd elusennau; neu
- pan fydd y Comisiwn yn barnu bod eu datgelu i awdurdod cyhoeddus perthnasol yn ddatgeliad **angenrheidiol** ac yn amodol ar **fudd cyhoeddus gor-redol**.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddatgeliad a wnaed at y diben hwn yn gymesur, yn ystyried eich hawl i breifatrwydd ac yn cael ei drin mewn ffordd deg a chyfreithlon yn unol ag Egwyddorion Diogelu Data y Ddeddf Diogelu Data.

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rheoleiddio'r defnydd o 'ddata personol' sydd yn ei hanfod yn unrhyw wybodaeth, sut bynnag y caiff ei storio, am unigolion byw adnabyddadwy. Fel 'rheolydd data' o dan y Ddeddf, rhaid i'r Comisiwn Elusennau gydymffurfio â'i gofynion.

RHAN A - GWYBODAETH AM YR ELUSEN

A1 - Blwyddyn ariannol

Mae manylion eich blwyddyn ariannol wedi'u hargraffu yma. Fel rheol bydd blwyddyn ariannol yn para 12 mis ond, mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn fyrrach neu'n hwy. I elusennau anghorfforedig, gall amrywio o 6 mis i 18 mis. Mae rheolau gwahanol yn gymwys i elusennau sydd hefyd yn gwmnïau.

Os yw'r wybodaeth ragargraffedig yn anghywir, neu os hoffech newid y flwyddyn ariannol, defnyddiwch y blychau o dan 'Manylion diwygiedig' a nodwch y dyddiadau yn y fformat dd/mm/bbbb, er enghraifft 31/03/08.

Os nad yw unrhyw ddyddiadau wedi'u rhagargraffu ar y ffurflen, rhaid i chi gwblhau adran A1 drwy gadarnhau dyddiadau'r flwyddyn ariannol o dan 'Manylion diwygiedig'.

A2 - Incwm a gwariant

Nodwch incwm a gwariant yr elusen yn y blychau a ddarparwyd. Talgrynnwch bob ffigur i'r bunt agosaf a pheidiwch â chynnwys ceiniogau. Dylai'r ffigurau gael eu fformatio fel y dangosir yn yr enghraifft isod.

Mae'r incwm a'r gwariant yn seiliedig ar y ffigurau yng nghyfrifon yr elusen am y flwyddyn ariannol a ddangosir yn A1. Rhaid i bob elusen yn yr ystod incwm a gwmpasir gan y ffurflen hon gael cyfrifon sydd wedi cael eu paratoi ar sail croniadau. Diffinnir y termau incwm a gwariant isod.

Diffiniad o incwm

Dyma'r incwm gros, y dylid ei gyfrifo fel cyfanswm yr adnoddau a dderbynnir fel y dangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (wedi'i baratoi yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau (SORP) ar gyfer yr holl gronfeydd), ond:

- ac eithrio derbyn unrhyw waddol; a
- chan gynnwys unrhyw swm a drosglwyddwyd i'r cronfeydd incwm yn ystod y flwyddyn o gronfeydd gwaddol er mwyn bod ar gael i'w gwario.

Sylwer: Nid yw'r SORP yn cynnwys yn y cyfanswm adnoddau a dderbynnir unrhyw enillion wrth ailbrisio asedau sefydlog neu enillion ar fuddsoddiadau. Nid yw enillion o'r fath yn ffurfio rhan o 'incwm gros' at y dibenion hyn.

Diffiniad o wariant

Dyma'r cyfanswm gwariant, y dylid ei gyfrifo fel cyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwyd o'r holl gronfeydd incwm a gwaddol fel y dangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (wedi'u paratoi yn unol â'r SORP).

A3 - Cyswllt yr elusen

Mae'r manylion cyswllt sydd gennym ar hyn o bryd ar gyfer eich elusen wedi'u hargraffu yma. Mae enw, cyfeiriad a rhif ffôn y cyswllt wedi'u cofnodi yn y Gofrestr Elusennau. Mae'r manylion hyn ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn y Gofrestr ac yn cael eu harddangos hefyd ar gofnod yr elusen yn y Gofrestr ar ein gwefan.

Mae dau fath o gyswllt: cyswllt unigolyn neu gyswllt sefydliad. Mae'r gwahaniaeth rhyngddynt wedi'u hesbonio'n ddiweddarach yn yr adran hon.

Os yw'r manylion rhagargraffedig yn anghywir neu'n anghyflawn, neu os hoffech roi gwybod i ni am gyswllt newydd, defnyddiwch adran A3a i roi manylion ar gyfer cyswllt unigolyn neu A3b i roi manylion ar gyfer cyswllt sefydliad. Peidiwch â rhoi cyswllt unigolyn a chyswllt sefydliad oherwydd byddwn yn derbyn un set o fanylion yn unig.

Mae'n hollbwysig eich bod yn cadw'r manylion cyswllt yn gyfoes. Os yw'r cyswllt yn newid unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn, dylai'r cyswllt sy'n gadael roi manylion y cyswllt sy'n cymryd ei le i ni. Gall wneud hyn drwy ddefnyddio ein gwasanaethau ar-lein ar y wefan neu drwy ysgrifennu at y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol yn y cyfeiriad ar glawr cefn y llyfryn hwn.

Cyswllt unigolyn

Mae cyswllt unigolyn yn berson a enwir. Gall fod yn un o'r ymddiriedolwyr elusen, megis y cadeirydd, neu gall fod yn berson sy'n gweithredu ar ran yr elusen ond nid yw'n ymddiriedolwr.

Mae'r manylion cyswllt i'w gweld yn y Gofrestr Elusennau, felly dylai fod yn rhywun sydd â gwybodaeth ymarferol dda o'r elusen ac sy'n gallu ateb ymholiadau gan y cyhoedd.

Os ydych yn diweddaru'r manylion cyswllt unigolyn cyfredol neu'n rhoi manylion am gyswllt unigolyn newydd, gweler adran A3a gyferbyn.

Cyswllt sefydliad

Os nad yw'r elusen yn dymuno cael unigolyn a enwir fel ei chyswllt, gall ddefnyddio sefydliad yn lle hynny. Gallai fod yn gwmni o gyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran yr elusen, neu'r elusen ei hun yng nghyfeiriad yr elusen (os oes un ganddi).

Mae'r cyfeiriad cyswllt i'w weld yn y Gofrestr Elusennau a gall y cyhoedd ei ddefnyddio i gysylltu â'r elusen, felly dylai fod modd i'r cyswllt sefydliad ateb ymholiadau cyffredinol am yr elusen, neu o leiaf gyfeirio ymholiadau uniongyrchol at yr unigolyn cywir.

Os ydych yn diweddaru'r manylion cyswllt sefydliad cyfredol neu'n rhoi manylion am gyswllt sefydliad newydd, gweler adran A3b gyferbyn.

A3a - Cyswllt unigolyn newydd neu ddiwygiedig

Defnyddiwch yr adran hon i newid manylion sy'n bod, neu i roi manylion am gyswllt unigolyn newydd. Os ydych yn newid manylion, neu'n rhoi gwybod i ni am unigolyn newydd, rhowch set lawn o fanylion ar gyfer yr unigolyn hwnnw yn hytrach na dim ond yr wybodaeth sy'n eisiau neu sydd wedi newid.

Dylech gynnwys:

- yr holl enwau personol (a elwir hefyd yn enwau cyntaf neu enwau bedydd);
- enw teuluol (a elwir hefyd yn gyfenw);
- dyddiad geni; a
- chyfeiriad llawn a chod post.

Os dymunwch, gallwch hefyd nodi ôl-ddodiad i'r enw i gofnodi unrhyw gymwysterau neu anrhydeddau yr hoffai'r unigolyn iddynt ymddangos ar ôl ei enw, ee BA, OBE.

Hefyd gallwch nodi enw o ddewis ar gyfer y cyswllt, er enghraifft Vicky Smith yn lle Mrs Victoria Mary Smith. Yna byddwn yn cofnodi'r enw o ddewis yn y Gofrestr Elusennau ac yn ei ddefnyddio i ohebu â'r elusen; fel arall byddwn yn cofnodi ac yn defnyddio manylion yr enw llawn.

Nid oes rhaid i'r cyfeiriad post fod yn gyfeiriad cartref yr unigolyn; er enghraifft, gallai fod ei gyfeiriad gwaith. Ond os yw'n gweithredu fel cyswllt ar gyfer sawl elusen, rhaid iddo fod yn gyfeiriad y gellir ei ddefnyddio ar gyfer pob un ohonynt. Dylai fod yn rhywle lle mae'r post yn cael ei godi'n gyson ac mae'n hawdd ei dderbyn.

Gallwch roi rhifau ffôn a ffôn symudol cyswllt hefyd. Bydd y rhif ffôn cyswllt yn cael ei gofnodi yn y Gofrestr Elusennau ac yn cael ei ddangos hefyd ar gofnod yr elusen yn y Gofrestr ar ein gwefan. Ni fydd y rhif ffôn symudol ar gael i'r cyhoedd ei weld ond gellir ei ddefnyddio i gysylltu â'r elusen.

Os oes unigolyn a enwir gennych ar hyn o bryd fel cyswllt yr elusen, ond byddai'n well gennych ddefnyddio sefydliad, dylech ddefnyddio adran A3b i roi manylion y cyswllt sefydliad newydd.

A3b - Cyswllt sefydliad newydd neu ddiwygiedig

Defnyddiwch yr adran hon i newid manylion sy'n bod, neu i roi manylion am gyswllt sefydliad newydd.

Os ydych yn newid manylion neu'n rhoi gwybod i ni am sefydliad newydd, bydd angen set lawn o fanylion ar gyfer y sefydliad, sy'n cynnwys ei enw, ei gyfeiriad llawn a chod post.

Gallwch roi rhifau ffôn a ffôn symudol cyswllt ar gyfer y sefydliad hefyd. Bydd y rhif ffôn cyswllt yn cael ei gofnodi yn y Gofrestr Elusennau ac yn cael ei ddangos hefyd ar gofnod yr elusen yn y Gofrestr ar ein gwefan. Ni fydd y rhif ffôn symudol ar gael i'r cyhoedd ei weld ond gellir ei ddefnyddio i gysylltu â'r elusen.

Os yw sefydliad yn gyswllt yr elusen ar hyn o bryd, ond byddai'n well gennych ddefnyddio unigolyn a enwir yn lle hynny, dylech ddefnyddio adran A3a i roi manylion am y cyswllt unigolyn newydd.

A4 & A5 - Cyfeiriadau e-bost yr elusen

Bydd yr adrannau hyn yn dangos unrhyw fanylion cyfeiriad e-bost sydd gennym ar gyfer eich elusen. Gall eich elusen restru dau gyfeiriad e-bost:

- cyfeiriad preifat y byddwn yn ei ddefnyddio i gysylltu â'r elusen, er enghraifft wrth gyhoeddi cyfrinair i gyrchu ein gwasanaethau ar-lein neu bostio nodiadau atgoffa; a hefyd
- cyfeiriad cyhoeddus, a gaiff ei gofnodi yn y Gofrestr Elusennau ac sy'n cael ei arddangos ar gofnod yr elusen yn y Gofrestr ar ein gwefan.

Nid oes angen i chi ddarparu dau gyfeiriad gwahanol o reidrwydd oherwydd gellir defnyddio'r un cyfeiriad ar gyfer y ddau ddiben. Os ydych yn bwriadu defnyddio'r un cyfeiriad, dylech ei nodi yn A4 ac A5.

Os hoffech newid neu ddiwygio cyfeiriad e-bost rhagargraffedig, neu roi cyfeiriad e-bost newydd i ni, defnyddiwch y blwch gwyn. Os hoffech ddileu cyfeiriad e-bost rhagargraffedig ac nid ydych yn darparu un newydd, rhowch groes yn y blwch 'Dileu' wrth ymyl y cyfeiriad perthnasol.

Nid oes rhaid i chi roi cyfeiriadau e-bost, ond os ydych mae'n bwysig eich bod yn cadw'r manylion yn gyfoes. Os yw'r cyfeiriadau'n newid unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn, dylech roi gwybod i ni. Gallwch wneud hyn drwy ddefnyddio ein gwasanaethau ar-lein ar y wefan neu drwy ysgrifennu at y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol yn y cyfeiriad ar glawr cefn y llyfryn hwn.

A6 - Gwefan yr elusen

Bydd yr adran hon yn dangos unrhyw fanylion cyfeiriad gwefan sydd gennym ar gyfer eich elusen. Bydd y cyfeiriad yn cael ei gofnodi yn y Gofrestr Elusennau a bydd hefyd yn ymddangos ar gofnod eich elusen yn y Gofrestr ar ein gwefan fel cyswllt i wefan eich elusen eich hun.

Os hoffech newid neu ddiwygio cyfeiriad gwefan rhagargraffedig, neu roi manylion cyfeiriad newydd i ni, defnyddiwch y blwch gwyn. Os hoffech ddileu'r cyfeiriad gwefan rhagargraffedig ac nid ydych yn darparu un newydd, rhowch groes yn y blwch 'Dileu' wrth ymyl y cyfeiriad.

A7 - Unigolion sy'n ymddiriedolwyr cyfredol

Defnyddiwch yr adran hon i wirio ac, os oes angen, newid manylion yr ymddiriedolwyr unigol y mae eu henwau wedi'u cofnodi ar hyn o bryd yn y Gofrestr Elusennau.

Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sydd, o dan delerau'r ddogfen lywodraethol, yn gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen. Gall fod enwau amrywiol ganddynt. Er enghraifft, yn achos cymdeithas, y pwyllgor gwaith neu'r pwyllgor rheoli yw'r ymddiriedolwyr elusen fel rheol, ac yn achos cwmni elusennol y cyfarwyddwyr yw'r ymddiriedolwyr elusen fel arfer.

Mae angen manylion ymddiriedolwyr sy'n gweithredu adeg cwblhau'r ffurflen ac nid ar ddiwedd blwyddyn ariannol yr elusen o reidrwydd. Nodwch yr ymddiriedolwyr newydd (neu ymddiriedolwyr a fu'n gweithredu am beth amser ond sydd heb eu rhestru) yn adran A8 'Unigolion sy'n ymddiriedolwyr newydd'.

Sylwch os na chawsom set lawn o fanylion ar gyfer ymddiriedolwr yn y gorffennol, mae'n bosibl nad yw ei fanylion wedi cael eu cydnabod, ac ni fyddant wedi'u rhestru. Os yw unrhyw ran o enw neu gyfeiriad ymddiriedolwr yn anghywir neu'n anghyflawn, rhowch y set **lawn** o fanylion eto o dan 'Manylion diwygiedig', yn hytrach na'r wybodaeth sydd wedi newid neu sy'n eisiau yn unig.

Mae set lawn o fanylion yn cynnwys:

- yr holl enwau personol (a elwir hefyd yn enwau cyntaf neu enwau bedydd);
- enw teuluol (a elwir hefyd yn gyfenw);
- dyddiad geni; a
- chyfeiriad cartref llawn a chod post.

Rhaid i ni gael cyfeiriad cartref yr ymddiriedolwr yn hytrach na chyfeiriad gwaith neu gyfeiriad yr elusen er mwyn i'r wybodaeth fod yn ddilys at ddibenion adnabod a gwybodaeth.

Hefyd, byddai'n ddefnyddiol i chi ddarparu rhif ffôn ar gyfer pob ymddiriedolwr rhag ofn y bydd angen i ni gysylltu â nhw. Os dymunwch, gallwch hefyd nodi ôl-ddodiad enw i gofnodi unrhyw gymwysterau neu anrhydeddau yr hoffai'r unigolyn iddynt ymddangos ar ôl ei enw, ee BA, OBE.

Hefyd, gallwch nodi enw o ddewis ar gyfer yr ymddiriedolwr, er enghraifft Vicky Smith yn lle Mrs Victoria Mary Smith. Yna byddwn yn cofnodi'r enw o ddewis yn y Gofrestr Elusennau; fel arall byddwn yn cofnodi manylion yr enw llawn.

Hefyd, gallwch nodi cyfeiriadau e-bost ar gyfer ymddiriedolwyr. Ni fydd y cyfeiriadau hyn yn cael eu dangos i'r cyhoedd. Gallwn eu defnyddio o bryd i'w gilydd i e-bostio diweddariadau pwysig am waith ymddiriedolwyr. Os nad yw'r ymddiriedolwyr eisiau derbyn y diweddariadau hyn, rhowch groes yn y blwch perthnasol ar dudalen 4 y ffurflen.

Os hoffech ddileu cyfeiriad e-bost rhagargraffedig, ac nid ydych yn darparu un newydd, rhowch groes yn y blwch 'Dim cyfeiriad e-bost gan yr ymddiriedolwr mwyach' o dan fanylion yr ymddiriedolwr hwnnw.

Dylech ddweud wrthym pwy yw cadeirydd yr elusen (os oes un gennych). Rhowch groes yn y blwch 'Mae'r ymddiriedolwr yn gadeirydd yr elusen' o dan yr ymddiriedolwr perthnasol a restrir naill ai yn adran A7 neu A8.

Sylwch oni bai fod goddefeb yn cael ei rhoi, bydd enwau'r ymddiriedolwyr yn ymddangos yn y Gofrestr Elusennau gyhoeddus, y gellir ei gweld ar ein gwefan. Ni fydd cyfeiriadau a manylion personol eraill ymddiriedolwyr ar gael i'r cyhoedd eu gweld. I gael gwybodaeth am oddefebau, ffoniwch y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol ar 0845 3000 218.

Os nad yw unigolyn a restrir yn gweithredu fel ymddiriedolwr mwyach, rhowch groes yn y blwch 'Ddim yn ymddiriedolwr mwyach' o dan eu manylion rhagargraffedig a byddwn yn ei ddileu o'n cofnodion.

A8 - Unigolion sy'n ymddiriedolwyr newydd

Defnyddiwch yr adran hon i roi manylion unigolion sy'n ymddiriedolwyr newydd. Mae hyn yn cynnwys unigolion a fu efallai'n gweithredu fel ymddiriedolwyr am beth amser ond nid yw eu manylion wedi'u hargraffu yn adran A7 ac nid yw eu henwau wedi'u cofnodi yn y Gofrestr Elusennau. Mae angen set lawn o fanylion ar gyfer pob unigolyn gan gynnwys:

- yr holl enwau personol (a elwir hefyd yn enwau cyntaf neu enwau bedydd);
- enw teuluol (a elwir hefyd yn gyfenw);
- dyddiad geni; a
- chyfeiriad cartref llawn a chod post.

Rhaid i ni gael cyfeiriad cartref yr ymddiriedolwr yn hytrach na chyfeiriad gwaith neu gyfeiriad yr elusen er mwyn i'r wybodaeth fod yn ddilys at ddibenion adnabod a gwybodaeth.

Hefyd, byddai'n ddefnyddiol i chi ddarparu rhif ffôn ar gyfer pob ymddiriedolwr rhag ofn y bydd angen i ni gysylltu â nhw. Os dymunwch, gallwch hefyd nodi ôl-ddodiad enw i gofnodi unrhyw gymwysterau neu anrhydeddau yr hoffai'r unigolyn iddynt ymddangos ar ôl ei enw, ee BA, OBE.

Hefyd, gallwch nodi enw o ddewis ar gyfer yr ymddiriedolwr, er enghraifft Vicky Smith yn lle Mrs Victoria Mary Smith. Yna byddwn yn cofnodi'r enw o ddewis yn y Gofrestr Elusennau; fel arall byddwn yn cofnodi manylion yr enw llawn.

Os oes mwy o ymddiriedolwyr newydd gan eich elusen nag y gellir eu nodi yn adran hon y ffurflen, gwnewch gopi o dudalen wag o'r rhan hon ac atodwch y tudalennau ychwanegol hyn y tu mewn i'r ffurflen pan fyddwch yn ei dychwelyd atom.

Sylwch oni bai fod goddefeb yn cael ei rhoi am resymau diogelwch neu resymau eraill, bydd enwau'r ymddiriedolwyr yn ymddangos yn y Gofrestr Elusennau, y gellir ei gweld ar ein gwefan. Ni fydd cyfeiriadau a manylion personol eraill ymddiriedolwyr ar gael i'r cyhoedd eu gweld. I gael gwybodaeth am oddefebau ffoniwch y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol ar 0845 3000 218.

A9 - Ymddiriedolwr corfforedig

Bydd manylion wedi'u hargraffu yn yr adran hon dim ond os gwyddwn fod ymddiriedolwr corfforedig gan yr elusen, ee cyngor plwyf neu Ymddiriedolaeth GIG.

Mae ymddiriedolwr corfforedig yn gorff sy'n endid cyfreithiol ar wahân ac mae wedi cael ei adnabod yn nogfen lywodraethol yr elusen fel ei hymddiriedolwr. Ni ddylid drysu rhwng hwn â sefydliad a nodwyd yn y ddogfen lywodraethol fel corff enwebu sy'n gallu penodi ymddiriedolwyr unigol.

Os nad ydych yn siwr a oes ymddiriedolwr corfforedig gan eich elusen neu beidio, darllenwch eich dogfen lywodraethol. Bydd ymddiriedolwr corfforedig neu ymddiriedolwyr unigol gan y rhan fwyaf o elusennau, ond nid y ddau.

Gwiriwch fanylion yr ymddiriedolwr corfforedig ar y ffurflen. Os ydynt yn anghywir neu'n anghyflawn, neu os yw'r adran hon yn wag ac mae ymddiriedolwr corfforedig gan eich elusen, rhowch y manylion cywir yn llawn o dan adran A9a, 'Ymddiriedolwr corfforedig newydd neu ddiwygiedig' a gweler y nodiadau isod.

A9a - Ymddiriedolwr corfforedig newydd neu ddiwygiedig

Defnyddiwch yr adran hon i newid manylion presennol neu i roi manylion am ymddiriedolwr corfforedig newydd. Os ydych yn newid manylion neu'n rhoi gwybod i ni am ymddiriedolwr corfforedig newydd, bydd angen set lawn o fanylion arnom, sy'n cynnwys:

- enw'r ymddiriedolwr corfforedig; a
- chyfeiriad llawn a chod post.

Hefyd, byddai'n ddefnyddiol i gael rhif ffôn a chyfeiriad e-bost. Sylwch bydd enw'r ymddiriedolwr corfforedig i'w weld ar ein gwefan, ond ni fydd unrhyw gyfeiriad, manylion ffôn neu e-bost ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

Os oes gan eich elusen fwy nag un ymddiriedolwr corfforedig, atodwch lythyr esboniadol i'r ffurflen gan nodi enw a chyfeiriad llawn pob ymddiriedolwr corfforedig, neu ewch i'n gwefan a defnyddiwch ein gwasanaethau ar-lein i wirio a newid y manylion.

A10 & A11 - Ardal gweithredu

Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd archwilio'r Gofrestr Elusennau, ac mae ar gael ar ein gwefan. Er mwyn galluogi'r cyhoedd, buddiolwyr a noddwyr posibl i chwilio'r Gofrestr a chael hyd i elusennau mewn ardaloedd penodol, gofynnwn i chi ddweud wrthym ble yn union rydych yn gweithredu.

Mae 'ardal gweithredu' yn golygu'r ardal ddaearyddol lle mae'r elusen yn gwario ei chronfeydd elusennol ar ei dibenion elusennol, yn hytrach na lleoliad ei swyddfeydd gweinyddol. Er enghraifft, hyd yn oed os yw elusen sy'n gweithredu cartref plant amddifaid yn Rwmania wedi'i lleoli yn Swydd Hertford, dylid nodi Rwmania fel yr ardal gweithredu.

Gall eich dogfen lywodraethol gyfyngu ar ble y gall yr elusen weithredu; neu mae'n bosibl nad yw'n pennu ardal ddaearyddol ac mae'n caniatáu i'r elusen weithredu'n fyd-eang. Ond os yw'r elusen yn gweithredu o fewn ardaloedd awdurdod lleol neu wledydd arbennig, dylech nodi'r rhain ar y ffurflen. Bydd rhai elusennau a ddangosir cyn hyn fel rhai sy'n gweithredu'n fyd-eang neu ar gyfandiroedd arbennig yn canfod nad ydym wedi rhagargraffu unrhyw fanylion. Os nad oes unrhyw fanylion wedi'u rhagargraffu ar eich ffurflen, dylech nodi yn adran A10a neu A11a (neu'r ddau) yr ardaloedd neu'r gwledydd rydych yn gweithredu ynddynt yn awr.

Mae'n bwysig bod y Gofrestr yn adlewyrchu'n gywir yr ardal(oedd) lle mae'r ymddiriedolwyr wedi penderfynu dewis canolbwyntio eu gwaith am y tro. Gall yr ardal gweithredu newid o flwyddyn i flwyddyn, ond os ydych yn cadw'ch cofnod ar y Gofrestr yn gyfoes rydych yn llai tebygol o dderbyn ceisiadau am gymorth o'r tu allan i'ch ardal o ddewis.

A10 - Ardal gweithredu yng Nghymru a Lloegr

Os yw'ch elusen yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr (neu'r ddwy wlad) ac rydym yn cadw'r manylion ar hyn o bryd, byddant wedi'u hargraffu yn adran A10. Os nad yw unrhyw un o'r cofnodion hyn yn gymwys mwyach, dylech roi croes yn y blychau perthnasol i'w dileu.

Os yw'ch elusen yn gweithredu mewn mwy na deg ardal awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr (neu'r ddwy wlad), ond nid yw hyn wedi'i restru yn adran A10, dylech roi croes yn y blwch 'trwy' perthnasol yn adran A10a.

Os yw'ch elusen yn gweithredu trwy'r Deyrnas Unedig, dylech ddewis 'trwy Gymru a Lloegr' yn adran A10a ac ychwanegu cofnodion ar gyfer Gogledd Iwerddon a'r Alban yn adran A11a (os nad ydynt wedi'u rhestru eisoes yn y cofnodion a argraffwyd).

Yn adran A10a gallwch ychwanegu ardaloedd yng Nghymru a Lloegr. Gallwn dderbyn cofnodion newydd ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol o'r rhestrau canlynol yn unig.

Gall ardaloedd gweithredu dilys newid. Mae'r ardaloedd a restrir yma ac yn y nodyn ar A10 yn gywir adeg cyhoeddi.

Ardaloedd awdurdodau unedol

Bath and North East Somerset
Blackburn with Darwen
Blackpool
Blaenau Gwent
Bournemouth
Bracknell Forest
Bridgend
Brighton and Hove
Bristol City
Caerphilly
Cardiff
Carmarthenshire
Ceredigion
Conwy
Darlington
Denbighshire
Derby City
East Riding of Yorkshire
Flintshire
Gwynedd
Halton
Hartlepool
Herefordshire
Isle of Anglesey
Isle of Wight
Isles of Scilly
Kingston upon Hull City
Leicester City
Luton
Medway
Merthyr Tydfil
Middlesbrough
Milton Keynes
Monmouthshire
Neath Port Talbot
Newport City
North East Lincolnshire
North Lincolnshire
North Somerset
Nottingham City
Pembrokeshire
Peterborough City
Plymouth City
Poole
Portsmouth City
Powys
Reading
Redcar and Cleveland
Rhondda Cynon Taff
Rutland
Slough
South Gloucestershire
Southampton City
Southend-on-Sea
Stockton-on-Tees
Stoke-on-Trent City
Swansea, City of
Swindon
Telford and Wrekin
Thurrock
Torbay
Torfaen
Vale of Glamorgan
Warrington
West Berkshire
Windsor and Maidenhead
Wokingham
Wrexham
York, City of

Bwrdeistrefi Llundain

Barking and Dagenham
Barnet
Bexley
Brent
Bromley
Camden
City of London
Croydon
Ealing
Enfield
Greenwich
Hackney
Hammersmith and Fulham
Haringey
Harrow
Havering
Hillingdon
Hounslow
Islington
Kensington and Chelsea
Kingston upon Thames
Lambeth
Lewisham
Merton
Newham
Redbridge
Richmond upon Thames
Southwark
Sutton
Tower Hamlets
Waltham Forest
Wandsworth
Westminster City

Ardaloedd metropolitanaidd

Barnsley
Birmingham City
Bolton
Bradford City
Bury
Calderdale
Coventry City
Doncaster
Dudley
Gateshead
Kirklees
Knowsley
Leeds City
Liverpool City
Manchester City
Newcastle upon Tyne City
North Tyneside
Oldham
Rochdale
Rotherham
Salford City
Sandwell
Sefton
Sheffield City
Solihull
South Tyneside
St Helens
Stockport
Sunderland
Tameside
Trafford
Wakefield, City of
Walsall
Wigan
Wirral
Wolverhampton

Siroedd anfetropolitanaidd

Bedfordshire
Buckinghamshire
Cambridgeshire
Cheshire
Cornwall
Cumbria
Derbyshire
Devon
Dorset
Durham
East Sussex
Essex
Gloucestershire
Hampshire

Hertfordshire
Kent
Lancashire
Leicestershire
Lincolnshire
Norfolk
North Yorkshire
Northamptonshire
Northumberland
Nottinghamshire
Oxfordshire
Shropshire
Somerset
Staffordshire
Suffolk
Surrey
Warwickshire
West Sussex
Wiltshire
Worcestershire

A11 - Ardal gweithredu y tu allan i Gymru a Lloegr

Os yw'ch elusen yn gweithredu y tu allan i Gymru a Lloegr ac rydym yn cadw'r manylion ar hyn o bryd, mae'r rhain wedi'u hargraffu yn adran A11. Os nad yw unrhyw un o'r cofnodion hyn yn gymwys mwyach, dylech roi croes yn y blychau perthnasol i'w dileu.

Yn adran A11a, i elusennau sy'n gweithredu y tu allan i Gymru a Lloegr, gallwn dderbyn cofnodion ar gyfer gwledydd o'r rhestr ganlynol.

Affrica

Algeria
Angola
Benin
Botswana
Burkina Faso
Burundi
Cameroon
Central African Republic
Chad
Comoros
Congo, Republic of
Democratic Republic of the Congo
Djibouti
Egypt
Equatorial Guinea
Eritrea
Ethiopia
Gabon
Gambia
Ghana
Guinea
Guinea-Bissau
Ivory Coast
Kenya
Lesotho
Liberia
Libya
Madagascar
Malawi
Mali
Mauritania
Mauritius
Morocco
Mozambique
Namibia
Niger
Nigeria
Rwanda
Sao Tome and Principe
Senegal
Seychelles
Sierra Leone
Somalia
South Africa
Sudan
Swaziland
Tanzania
Togo
Tunisia
Uganda
Zambia
Zimbabwe

Antarctica

Antarctica

Asia

Afghanistan
Armenia
Bahrain
Bangladesh
Bhutan
Brunei
Burma
Cambodia
China
India
Indonesia
Iran
Iraq
Israel
Japan
Jordan
Kazakhstan
Kuwait
Kyrgyzstan
Laos
Lebanon
Malaysia
Maldives
Mongolia
Nepal
North Korea
Occupied Palestinian Territories
Oman
Pakistan
Philippines
Qatar
Saudi Arabia
Singapore
South Korea
Sri Lanka
Syria
Tajikistan
Thailand
Timor-Leste
Turkey
Turkmenistan
United Arab Emirates
Uzbekistan
Vietnam
Yemen

Ewrop

Albania
Andorra
Austria
Azerbaijan
Belarus
Belgium
Bosnia and Herzegovina
Bulgaria
Cape Verde
Croatia
Cyprus
Czech Republic
Denmark
Estonia
Finland
France
Georgia
Germany
Greece
Hungary
Iceland
Italy
Kosovo
Latvia
Liechtenstein
Lithuania
Luxembourg
Macedonia
Malta
Moldova
Monaco
Montenegro
Netherlands
Northern Ireland
Norway
Poland
Portugal
Republic of Ireland
Romania
Russia
San Marino
Scotland
Serbia
Slovakia
Slovenia
Spain
Sweden
Switzerland
Ukraine

Gogledd America

Antigua and Barbuda
Bahamas
Barbados
Belize
Canada
Costa Rica
Cuba
Dominica
Dominican Republic
El Salvador
Grenada
Guatemala
Haiti
Honduras
Jamaica
Mexico
Nicaragua
Panama
St Kitts and Nevis
St Lucia
St Vincent and the Grenadines
Trinidad and Tobago
United States of America

Ynysoedd y De

Australia
Fiji
Kiribati
Marshall Islands
Micronesia
Nauru
New Zealand
Palau
Papua New Guinea
Samoa
Solomon Islands
Tonga
Tuvalu
Vanuatu

De America

Argentina
Bolivia
Brazil
Chile
Colombia
Ecuador
Guyana
Paraguay
Peru
Suriname
Uruguay
Venezuela

Tiriogaethau a dibyniaethau

Mae gan y Deyrnas Unedig a rhai gwledydd eraill diriogaethau a dibyniaethau sydd heb eu cynnwys yn y rhestrau yn A11 uchod, ee Jersey ac Ynysoedd Cayman. Os yw'ch elusen yn gweithredu mewn tiriogaethau neu ddibyniaethau, nodwch yr enwau yn adran A11a a byddwn yn derbyn y cofnodion hyn os ydynt yn ardaloedd cydnabyddedig.

A12 - Gweithgareddau elusennau

Yma dylech roi disgrifiad byr o weithgareddau'ch elusen i ategu'r dosbarthiadau bras a restrwyd yn A14 (Dosbarthu elusennau). Bydd y disgrifiad hwn yn ymddangos yn y Gofrestr Elusennau a bydd yn ychwanegu at yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, rhoddwyr posibl a buddiolwyr. Am resymau technegol ni all eich disgrifiad fod yn fwy na 400 o nodau, gan gynnwys bylchau.

Os ydych yn darparu gwybodaeth gryno a chywir yma, byddwch yn sicrhau bod unrhyw ymholiadau a gewch yn berthnasol. Mae hwn yn gyfle i ddweud wrth roddwyr posibl neu fuddiolwyr yn union beth rydych yn ei wneud, sut rydych yn ei wneud a ble rydych yn gweithredu. Gall fod yn arbennig o ddefnyddiol os teimlwch nad yw'r adrannau ardal gweithredu (A10 ac A11) a dosbarthu elusennau (A14) yn cynnig modd i chi ddisgrifio'r hyn a wnewch yn ddigon manwl.

Er enghraifft, gall elusen gyda dibenion elusennol cyffredinol gael polisi o roi grantiau i bobl sy'n astudio mewn lleoliad arbennig neu bwnc o ddewis. Yn yr un modd, gall elusen sy'n ceisio lleddfu tlodi ddewis darparu ei gwasanaeth drwy roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r rhai sy'n byw mewn ardal arbennig. Mae'r adran 'Gweithgareddau elusennau' yn cynnig modd i chi ddweud wrth bobl am hyn.

Mae lle yn gyfyngedig, felly nid ydym wedi rhagargraffu unrhyw wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd ar eich gweithgareddau. Os ydych wedi rhoi disgrifiad o'r rhain i ni cyn hyn, gallwch wirio a newid y disgrifiad drwy ddefnyddio ein gwasanaeth ar-lein. Os na allwch gyrchu ein gwasanaeth ar-lein, gallwch roi disgrifiad newydd ar y ffurflen a bydd hwn yn cymryd lle unrhyw fanylion sydd gennym ar hyn o bryd.

A13 - Prif gyfrif banc/cymdeithas adeiladu'r elusen

Yma byddwn yn dangos manylion y prif gyfrif sydd gennym ar gyfer eich elusen ar hyn o bryd. Am resymau diogelwch ni fyddwn yn argraffu'r rhif cyfrif llawn. Os yw'r manylion a ddangosir yn anghywir neu'n wag, rhowch set gyflawn o fanylion cywir o dan 'Manylion diwygiedig'. Mae angen yr wybodaeth ganlynol arnom:

Ar gyfer cyfrif banc:

- enw llawn y banc;
- cod didoli'r banc. Bydd yn ffigur chwe digid a dylech ei nodi fel y mae'n ymddangos, er enghraifft, 12-34-56;
- eich rhif cyfrif banc. Fe'i gwelwch ar lyfr sieciau neu gyfriflenni banc ac fel arfer mae'n ffigur 7-10 digid; ac
- enw'r cyfrif fel y mae'n ymddangos ar y llyfr sieciau, paslyfr neu gyfriflen.

Ar gyfer cymdeithas adeiladu:

- enw llawn y gymdeithas adeiladu;
- rhif rôl neu gyfeirnod. Gall y rhif rôl neu gyfeirnod gynnwys hyd at 18 llythyren a rhif. Os nad ydych yn siŵr a oes rhif rôl neu gyfeirnod gan y cyfrif, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu; ac
- enw'r cyfrif fel y mae'n ymddangos ar y llyfr sieciau, paslyfr neu gyfriflen.

Mae angen manylion eich prif gyfrif yn unig. Ni fydd unrhyw fanylion cyfrif ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

A14 - Dosbarthu elusennau

Gofynnwn i chi ddosbarthu'ch elusen drwy ddefnyddio tri phennawd. Mae'r rhain yn disgrifio BETH rydych yn ei wneud, PWY rydych yn ei helpu, a SUT rydych yn gweithredu. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i roddwyr posibl, buddiolwyr ac eraill i gael hyd i'r elusennau y maen nhw'n chwilio amdanynt ar y Gofrestr Elusennau.

Rydym yn dangos y dosbarthiadau rydych wedi'u dewis cyn hyn drwy roi tic o dan 'Manylion cyfredol' ar ochr chwith y dudalen. Gwiriwch y rhain. Os yw'r manylion yn anghywir neu'n anghyflawn, newidiwch nhw drwy groesi'r blychau 'Dileu' neu 'Ychwanegu' perthnasol wrth ymyl pob dosbarthiad. Mae'r dosbarthiadau yn gategorïau bras. Ni allwn deilwra'r rhain i weddu i elusennau unigol, felly ni allwn dderbyn unrhyw nodiadau mewn llawysgrifen rydych yn eu hychwanegu at yr adran hon. Dylech ddewis o leiaf un categori o dan bob un o'r tri phennawd i ddisgrifio'ch gweithgareddau. Bydd y dosbarthiadau hyn ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

RHAN B - GWYBODAETH ARIANNOL

Bydd angen fersiwn derfynol o gyfrifon cyhoeddedig yr elusen er mwyn cwblhau Rhan B. Dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod yr adran hon yn cael ei chwblhau gan berson cymwys sy'n gyfarwydd â chyfrifon yr elusen.

Os yw'ch elusen yn rheoli unrhyw is-ymgymeriadau, mae'n debygol y bydd cyfrifon cyfunol neu grŵp wedi cael eu paratoi. Dylech gwblhau'r adran hon drwy ddefnyddio'r cyfrifon cyfunol, nid cyfrifon yr elusen ei hun. Rhowch groes yn y blwch perthnasol ar frig yr adran hon i ddangos a ydych yn seilio'ch atebion ar gyfrifon cyfunedig neu gyfrifon yr elusen yn unig.

Mae pob maes yn orfodol felly os nad oes gennych unrhyw beth i'w nodi mewn blwch arbennig, dylech nodi sero. Nodwch y ffigurau i'r bunt agosaf a nodwch nhw eto mewn punnoedd os yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi i'r mil agosaf, er enghraifft.

B1 - Adnoddau

Yn gyffredinol bydd yr wybodaeth a fydd ei hangen arnoch i gwblhau'r adran hon i'w gweld yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Trwy gydol yr adran hon, nodwch rifau heb arwyddion (ee, £, minws neu gromfachau) a heb gomas neu atalnodau llawn.

B1.1 - Incwm gwirfoddol

Mae incwm gwirfoddol yn cynnwys adnoddau a dderbynnir o'r ffynonellau canlynol:

- rhoddion a chyfraniadau a dderbyniwyd, gan gynnwys cymynroddion;
- unrhyw dreth a adenillwyd ar symiau a dderbyniwyd o dan rodd cymorth;
- grantiau sy'n darparu cyllid craidd neu sydd o natur gyffredinol;
- tanysgrifiadau aelodaeth a nawdd os ydynt, mewn gwirionedd, yn gyfraniadau; a
- rhoddion o fath arall a gwasanaethau a chyfleusterau a roddwyd.

Diffinnir incwm gwirfoddol yn y Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau (SORP) ym mharagraff 121 ac fe'i dangosir yn rhes A1a tabl 3 y SORP.

B1.1a - Cymynroddion

Dyma swm y cymynroddion a dderbyniwyd sy'n rhan o incwm gwirfoddol (B1.1). Os yw unrhyw gymynroddion i'w cadw fel gwaddol, dylech eu cynnwys yn B1.1b yn lle B1.1a. Sylwch mae'r maes hwn ar gyfer gwybodaeth atodol yn unig. Nid oes angen i chi addasu B1.1 gan y swm hwn oherwydd dylai holl gymynroddion y flwyddyn gael eu cynnwys yn yr incwm gwirfoddol.

B1.1b - Gwaddolion a dderbyniwyd

Dyma swm incwm gwirfoddol y flwyddyn (B1.1) a gafodd eu hychwanegu at waddolion. Mae derbyniadau gwaddol yn cynnwys unrhyw setliadau gan roddwr, gan gynnwys unrhyw gymynroddion y mae'n rhaid i chi eu cadw fel cyfalaf gwaddol. Nid yw'n cynnwys enillion cyfalaf (neu log) sydd efallai yn codi o'r gwaddolion. Sylwch mae'r maes hwn ar gyfer gwybodaeth atodol yn unig. Nid oes angen i chi addasu B1.1 gan y swm hwn oherwydd dylid cynnwys yr holl gymynroddion gwaddol mewn incwm gwirfoddol.

B1.2 - Gweithgareddau i gynhyrchu cronfeydd

Mae'n cynnwys adnoddau a gynhyrchwyd gan weithgareddau masnachu sy'n codi arian i'r elusen yn benodol; er enghraifft:

- digwyddiadau codi arian megis ffeiriau sborion, arddangosiadau tân gwyllt a chyngherddau;
- nawdd a lotrïau cymdeithasol sydd heb fod yn rhoddion pur;
- incwm o siopau sy'n gwerthu nwyddau a gyfrannwyd a nwyddau a brynwyd i mewn;
- darparu nwyddau a gwasanaethau heblaw ar gyfer budd buddiolwyr yr elusen; a
- gosod a thrwyddedu eiddo a ddelir at ddefnydd ymarferol yn bennaf ond sy'n weddill i anghenion am y tro.

Diffinnir gweithgareddau i gynhyrchu cronfeydd yn y SORP Elusennau ym mharagraff 137 ac fe'u dangosir yn rhes A1b tabl 3 yn y SORP.

B1.3 - Incwm o fuddsoddiadau

Mae incwm o fuddsoddiadau yn cynnwys adnoddau a dderbynnir o asedau buddsoddi, gan gynnwys difidendau, llog sydd i'w dderbyn a rhent, ond nid yw'n cynnwys enillion a cholledion buddsoddi wedi'u realeiddio a heb eu realeiddio (B2.3).

Dangosir incwm o fuddsoddiadau yn rhes A1c tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.4 - Adnoddau a dderbynnir o weithgareddau elusennol

Mae adnoddau a dderbynnir o weithgareddau elusennol yn cynnwys unrhyw adnoddau sy'n codi o weithgareddau sy'n hybu amcanion yr elusen. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwerthu nwyddau neu wasanaethau fel gweithgaredd elusennol;
- gwerthu nwyddau a wnaed neu wasanaethau a ddarparwyd gan fuddiolwyr yr elusen;
- gosod eiddo heb fod yn eiddo buddsoddi wrth gyflawni amcanion yr elusen;
- grantiau sy'n benodol ar gyfer darparu nwyddau neu wasanaethau fel rhan o weithgareddau neu wasanaethau elusennol i fuddiolwyr (gan gynnwys grantiau cysylltiedig â pherfformiad); a
- masnachau atodol sy'n gysylltiedig â'r uchod.

Dangosir masnachu elusennol yn rhes A2 tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.5 - Adnoddau eraill a dderbynnir

Mae'r swm hwn yn cynnwys enillion ar waredu asedau sefydlog diriaethol a derbyn unrhyw adnoddau eraill a dderbynnir nad oes modd eu cyfrif amdanynt yn y categorïau uchod (B1 i B4).

Dangosir y swm yn rhes A3 tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.6 - Cyfanswm adnoddau a dderbynnir

Dyma gyfanswm yr holl adnoddau a dderbynnir a dylai fod yn hafal i swm meysydd B1.1 i B1.5, ac eithrio B1.1a a B1.1b.

B1.7 - Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol

Mae'r swm hwn yn cynnwys costau cynhyrchu'r incwm gwirfoddol a restrir yn B1.1 (er enghraifft, cyfraniadau, cymynroddion, grantiau cyllid craidd a nwyddau o fath arall). Hefyd, gall y costau gynnwys codi arian, hysbysebu, marchnata a deunyddiau post uniongyrchol, yn ogystal ag unrhyw daliadau i asiant. Fel rheol byddant yn cynnwys costau cyhoeddusrwydd ond ni fyddant yn cynnwys cost deunydd addysgol a gynhyrchir i hybu gwaith yr elusen, a ddosberthir fel cost gweithgareddau elusennol.

Dangosir y costau hyn yn rhes B1a tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.8 - Costau masnachu codi arian

Mae costau masnachu codi arian yn cynnwys yr holl gostau sy'n codi drwy gynhyrchu'r incwm a restrir yn B1.2, ac mae'n cynnwys:

- cost nwyddau a werthwyd neu wasanaethau a ddarparwyd fel rhan o'r fasnach; a
- chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r fasnach, megis costau staff ac eiddo.

Dangosir y costau hyn yn rhes B1b tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.9 - Costau rheoli buddsoddiadau

Mae costau rheoli buddsoddiadau yn cynnwys costau ceisio cyngor ar fuddsoddiadau, rheoli'r portffolio ac, ar gyfer eiddo buddsoddi, casglu rhenti, atgyweiriadau eiddo a chostau cynnal a chadw.

Dangosir y costau hyn yn rhes B1c tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.10 - Costau gweithgareddau elusennol

Mae'r rhain yn cynnwys yr holl adnoddau sy'n cael eu defnyddio i gyflawni amcanion elusennol, gan gynnwys y symiau sy'n cael eu gwario ar:

- grantiau;
- y ddarpariaeth uniongyrchol o wasanaethau elusennol; a
- chyfran o gostau cynnal yr elusen, a fydd, os cânt eu dyrannu, yn cael eu hesbonio yn y nodiadau ar y cyfrifon.

Nid ydynt yn cynnwys:

- cost codi cronfeydd i gyllido'r gweithgareddau hyn; a
- chost llywodraethu'r elusen.

Dangosir y costau hyn yn rhes B2 tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.10a - Grantiau i sefydliadau

Mae grantiau i sefydliadau yn ffurfio rhan o gostau gweithgareddau elusennol. Mae'r SORP yn diffinio'r rhain fel grantiau sydd heb eu rhoi i unigolion. Gallant naill ai fod yn grantiau cymorth cyffredinol neu grantiau sy'n cael eu rhoi ar gyfer rhyw ddiben cyfyngedig.

Yn y cyd-destun hwn nid yw grantiau'n cynnwys unrhyw gostau cynnal wedi'u dyrannu sydd gan yr elusen. Dylai swm y grantiau a dalwyd i sefydliadau gael ei ddatgelu yn y nodiadau ar y cyfrifon.

Sylwch mae'r maes hwn ar gyfer gwybodaeth atodol yn unig. Nid oes angen i chi addasu B1.10 gan y swm hwn oherwydd dylai fod wedi'i gynnwys yn y maes 'costau gweithgareddau elusennol'.

B1.11 - Costau llywodraethu

Mae costau llywodraethu yn cynnwys costau cyffredinol gweinyddu'r elusen. Fel rheol maent yn cynnwys costau archwilio, cyngor cyfreithiol i ymddiriedolwyr a chostau bodloni gofynion cyfansoddiadol a statudol (ee, cyfarfodydd ymddiriedolwyr a chyfrifon statudol blynyddol), a gallent gynnwys cost prosesau cynllunio strategol.

Dangosir costau llywodraethu yn rhes B3 tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.12 - Adnoddau eraill a ddefnyddiwyd

Ni ddefnyddir y categori hwn yn aml oherwydd gall y rhan fwyaf o wariant gael ei gategoreiddio o dan y meysydd B1.7 i B1.11, ond os caiff ei ddefnyddio, y swm a ddangosir fydd yr hyn a nodir yn rhes B4 tabl 3 y SORP Elusennau.

B1.13 - Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd

Dyma swm yr holl adnoddau a ddefnyddiwyd. Dylai fod yn hafal i swm B1.7 i B1.12, ac eithrio B1.10a.

B2 - Enillion/colledion cydnabyddedig eraill

Yn gyffredinol bydd yr wybodaeth a fydd ei hangen arnoch i gwblhau'r adran hon i'w gweld yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol neu'r nodiadau ar y cyfrifon. Nodwch y rhifau heb gomas neu atalnodau llawn a heb arwyddion (ee, £ neu gromfachau) oni bai eu bod yn golledion, ac os felly dylech eu nodi gydag arwydd minws.

B2.1 - Ailbrisiadau o asedau sefydlog diriaethol

Dyma swm unrhyw newid yng ngwerth asedau sefydlog diriaethol (hy, yr holl asedau sydd heb eu dal at ddibenion buddsoddi) o ganlyniad i ailbrisio yn ystod y flwyddyn ariannol. Peidiwch â nodi cyfanswm gwerth asedau sefydlog o'r fantolen.

Dangosir y swm yn rhes D1 tabl 3 y SORP Elusennau.

B2.2 - Enillion/colledion actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn budd diffiniedig

Os yw'ch elusen yn gweithredu cynllun pensiwn budd diffiniedig, bydd y ffigur hwn yn cynnwys yr enillion neu golledion actiwaraidd ar y cynllun fel y nodwyd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Dangosir y swm hwn yn rhes D3 tabl 3 y SORP Elusennau.

B2.3 - Enillion/colledion ar asedau buddsoddi

Dyma gyfanswm unrhyw enillion a cholledion sydd heb eu realeiddio sy'n codi wrth ailbrisio asedau buddsoddi i werth y farchnad, ac unrhyw enillion a cholledion wedi'u realeiddio ar waredu asedau buddsoddi yn ystod y flwyddyn.

Dangosir y swm yn rhes D2 tabl 3 y SORP Elusennau.

B3 - Asedau a rhwymedigaethau

Mae'r adran hon yn cynnwys symiau wedi'u tynnu naill ai o'r fantolen neu'r nodiadau ar y cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Os nad oes gennych unrhyw beth i'w nodi yma, rhowch sero. Rhowch rifau ym meysydd B3.1 i B3.4, B3.7 a B3.7a heb arwyddion (ee, £, minws neu gromfachau) a heb gomas neu atalnodau llawn. Dylech roi arwydd minws ym meysydd B3.5 i B3.11 (ar wahân i B3.7 a B3.7a) os oes atebolrwydd.

B3.1 - Cyfanswm asedau sefydlog

Asedau sefydlog yw'r rhai a ddelir at ddefnydd parhaus ac maent yn cynnwys asedau sefydlog diriaethol megis tir, adeiladau, offer a cherbydau, ac unrhyw fuddsoddiadau a ddelir yn y tymor hir i gynhyrchu incwm neu enillion. Gall rhai elusennau ddal asedau treftadaeth hefyd sy'n cael eu cynnal neu eu cadw fel rhan o amcanion yr elusen, neu asedau anniriaethol megis patentau. Dylid cynnwys y rhain hefyd.

Dangosir cyfanswm yr asedau sefydlog ar y fantolen ac mae'n gyfanswm o adran A tabl 7 y SORP Elusennau.

B3.1a - Buddsoddiadau asedau sefydlog

Mae buddsoddiadau asedau sefydlog yn cael eu dal yn y tymor hir i gynhyrchu incwm neu enillion a gallant gynnwys cyfrannau wedi'u dyfynnu a heb eu dyfynnu, bondiau, giltiau, cronfeydd buddsoddi cyffredin, eiddo buddsoddi ac adneuon tymor a ddelir fel rhan o bortffolio buddsoddi. Ni fydd buddsoddiadau asedau sefydlog yn cynnwys buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen, a ddangosir yn rhes A4a tabl 7 y SORP Elusennau. Sylwch mae'r maes hwn ar gyfer gwybodaeth atodol yn unig. Nid oes angen i chi addasu B3.1 gan y swm hwn oherwydd dylid ei gynnwys yn y maes cyfanswm asedau sefydlog.

B3.2 - Cyfanswm asedau cyfredol

Mae cyfanswm asedau cyfredol yn cynnwys stoc, dyledwyr, buddsoddiadau asedau cyfredol ac arian parod. Dangosir y swm fel cyfanswm adran B tabl 7 y SORP Elusennau.

B3.2a - Buddsoddiadau asedau cyfredol

Mae buddsoddiadau asedau cyfredol yn cael eu dal gyda'r bwriad o'u gwaredu o fewn y 12 mis nesaf. Mae buddsoddiadau o'r fath i'w gweld yn rhes B3 tabl 7 y SORP Elusennau. Sylwch mae'r maes hwn ar gyfer gwybodaeth atodol yn unig. Nid oes angen i chi addasu B3.2 gan y swm hwn oherwydd dylai fod wedi'i gynnwys yn y maes cyfanswm asedau cyfredol.

B3.2b - Arian parod

Mae'r swm hwn yn cynnwys adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol eraill, sy'n ad-daladwy ar gais, ond nid yw'n cynnwys gorddrafftiau banc. Dangosir arian parod yn rhes B4 tabl 7 y SORP Elusennau. Sylwch mae'r maes hwn ar gyfer gwybodaeth atodol yn unig. Nid oes angen i chi addasu B3.2 gan y swm hwn oherwydd dylid ei gynnwys yn y maes cyfanswm asedau cyfredol.

B3.3 - Credydwyr yn ddyledus o fewn blwyddyn

Dyma'r symiau sy'n ddyledus i gredydwyr ac maent yn cynnwys benthyciadau a gorddrafftiau, credydwyr masnach, croniadau ac incwm gohiriedig; maent yn daladwy cyn pen blwyddyn ac fe'u dangosir yn rhes C1 tabl 7 y SORP Elusennau.

B3.4 - Credydwyr a darpariaethau tymor hir

Dyma'r symiau sy'n ddyledus i gredydwyr ac sy'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn, gyda darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau, ac mae'n gyfanswm o resi C2 a C3 tabl 7 y SORP Elusennau.

B3.5 - Asedau/(rhwymedigaethau) cronfa bensiwn

Dyma'r gwarged neu'r diffyg mewn unrhyw gynllun pensiwn budd diffiniedig sy'n cael ei weithredu ac mae'n cynrychioli ased neu rwymedigaeth tymor hir posibl.

Dangosir yr ased neu'r rhwymedigaeth cronfa bensiwn yn rhes D tabl 7 y SORP Elusennau. Nodwch rwymedigaeth gydag arwydd minws.

B3.6 - Cyfanswm asedau/(rhwymedigaethau) net

Dyma gyfanswm yr holl asedau a ddangosir yn glir o'r holl rwymedigaethau. Dangosir y swm ar dabl 7 y SORP Elusennau fel asedau neu rwymedigaethau net, gan gynnwys unrhyw ased neu rwymedigaeth pensiwn, ac mae'n hafal i'r swm a nodwyd yn B3.11. Nodwch rwymedigaeth gydag arwydd minws.

B3.7 - Cyfanswm asedau sefydlog (ar ddechrau'r flwyddyn)

Dangosir cyfanswm yr asedau sefydlog ar ddechrau'r flwyddyn yn ffigurau cymharol y fantolen ac yn y nodiadau ar y cyfrifon.

Dangosir y swm fel cyfanswm adran A tabl 7 y SORP Elusennau am y flwyddyn flaenorol.

B3.7a - Buddsoddiadau asedau sefydlog (ar ddechrau'r flwyddyn)

Dangosir buddsoddiadau asedau sefydlog ar ddechrau'r flwyddyn yn ffigurau cymharol y fantolen ac yn y nodiadau ar y cyfrifon.

Dangosir y swm yn rhes A4a tabl 7 y SORP Elusennau ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. Sylwch mae'r maes hwn ar gyfer gwybodaeth atodol yn unig. Nid oes angen i chi addasu B3.2 gan y swm hwn oherwydd dylai fod wedi cael ei gynnwys yn y maes cyfanswm asedau cyfredol.

B3.8 - Cronfeydd gwaddol

Mae cronfeydd gwaddol yn cynnwys swm yr holl gronfeydd gwaddol parhaol a threuliadwy.

Dangosir y swm yn rhes E1 tabl 7 y SORP Elusennau.

B3.9 - Cronfeydd cyfyngedig

Mae cronfeydd cyfyngedig yn cynnwys swm yr holl gronfeydd a ddelir y mae'n rhaid eu gwario ar ddibenion arbennig yr elusen.

Dangosir y swm yn rhes E2 tabl 7 y SORP Elusennau.

B3.10 – Cronfeydd anghyfyngedig

Mae cronfeydd anghyfyngedig yn cynnwys swm yr holl gronfeydd a ddelir at ddibenion cyffredinol yr elusen. Bydd yn cynnwys cronfeydd incwm anghyfyngedig, cronfeydd dynodedig, cronfeydd ailbrisio ac unrhyw gronfa bensiwn.

Dangosir y swm fel cyfanswm adran E3 tabl 7 y SORP Elusennau. Dylid nodi diffyg gydag arwydd minws.

B3.11 - Cyfanswm cronfeydd

Mae cyfanswm cronfeydd yn cynnwys yr holl gronfeydd a ddangosir ar y fantolen ac mae'n cynnwys gwaddolion, incwm cyfyngedig a chronfeydd anghyfyngedig.

Dangosir y swm fel cyfanswm adran E tabl 7 y SORP Elusennau ac mae'n hafal i'r cyfanswm asedau net a ddangosir yn B3.6.

B4 - Gwybodaeth ychwanegol

Yn gyffredinol bydd yr wybodaeth a fydd ei hangen arnoch i gwblhau'r adran hon i'w gweld yn y nodiadau ar y cyfrifon. Trwy gydol yr adran hon, nodwch rifau heb arwyddion (ee, £, minws neu gromfachau) a heb gomas neu atalnodau llawn.

B4.1 - Costau cynnal

Costau cynnal yw costau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni gweithgaredd ond nid ydynt yn cynhyrchu'r gweithgaredd eu hunain. Maent yn cynnwys swyddogaethau swyddfa ganolog yr elusen ac yn cael eu dosrannu i weithgareddau yn aml. Y swm a ddangosir yma yw cyfanswm costau cynnal (ar gyfer gweithgareddau elusennol, codi arian a llywodraethu) sydd wedi'u cynnwys yn yr adnoddau a ddefnyddiwyd. Dangosir y swm yn y nodiadau ar y cyfrifon os yw'n swm arwyddocaol.

B4.2 - Tâl dibrisiant am y flwyddyn

Dyma swm y dibrisiant ar asedau sefydlog diriaethol (gan gynnwys taliadau amhariad, os oes), a gaiff ei ddangos fel y tâl am y flwyddyn yn y nodyn ased sefydlog diriaethol ar y cyfrifon.

B4.3 - Lefel y cronfeydd wrth gefn

Cyfrifir lefel y cronfeydd wrth gefn yn unol â rhestr termau GL51 y SORP ac fe'i nodir yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr (ABY). Fel rheol bydd yn cynnwys swm y cronfeydd anghyfyngedig sydd ar gael i'w defnyddio, ac fel rheol ni fydd yn cynnwys gwaddolion.

B4.4 - Nifer y gweithwyr cyflogedig amser llawn cyfatebol

Dyma nifer y gweithwyr cyflogedig a nodir yn y nodiadau ar y cyfrifon yn unol â pharagraff 235 y SORP.

B4.5 - Nifer y gwirfoddolwyr DU (dewisol)

Nodwch yma nifer y gwirfoddolwyr DU a oedd gan yr elusen yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhowch eich amcangyfrif gorau o'r nifer o unigolion gwirfoddol a gymerodd ran yn ystod y flwyddyn yn hytrach na nifer pro-rata neu amser llawn cyfatebol.

ADRODD AM DDIGWYDDIADAU DIFRIFOL

CANLLAWIAU I YMDDIRIEDOLWYR

Mae dyletswydd ar ymddiriedolwyr i gymryd camau rhesymol i asesu a lleihau unrhyw risgiau i weithgareddau neu fuddiolwyr, eiddo, gwaith neu enw da eu helusen. Ceisiwn dargedu ein hadnoddau ar y meysydd hynny lle mae'r risgiau mwyaf.

Unwaith eto y flwyddyn hon mae'n ofynnol i chi gadarnhau eich bod chi, fel ymddiriedolwyr, wedi adrodd am unrhyw ddigwyddiadau difrifol i ni wrth iddynt godi, digwyddiadau sydd wedi achosi neu a allai achosi niwed i'ch elusen, neu os nad ydych wedi gwneud hynny i'w hadrodd i ni fel rhan o'r Ffurflen Flynyddol.

Gofyniad cyfreithiol

Dylai pob ymddiriedolwr ddarparu gwybodaeth am ddigwyddiadau difrifol cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt ddod yn ymwybodol ohonynt. Os oes gan eich elusen incwm o fwy na £25,000 mae'n rhaid i chi, fel rhan o'r Ffurflen Flynyddol, gadarnhau nad oes unrhyw ddigwyddiadau difrifol neu faterion eraill sy'n ymwneud â'ch elusen dros y flwyddyn ariannol flaenorol y dylech fod wedi dwyn at ein sylw ond nid ydych wedi gwneud hynny. Byddai methu â chadarnhau hyn yn cael ei ystyried yn weithred sy'n groes i ofynion cyfreithiol.

Arfer gorau

Fel mater o arfer gorau, dylid rhoi gwybod i ni ar unwaith am unrhyw ddigwyddiad difrifol sy'n achosi, neu a allai achosi colled sylweddol o gronfeydd neu risg sylweddol i eiddo, gwaith, buddiolwyr neu enw da'r elusen, nid yn unig pan fyddwch yn cwblhau'r Ffurflen Flynyddol.

Beth sy'n ddifrifol neu'n sylweddol?

Chi sydd i benderfynu hyn yng nghyd-destun eich elusen. Rydym yn mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar risg a chymesur at reoleiddio ac yn targedu ein gwaith ar yr achosion hynny lle y gallwn gael yr effaith fwyaf. Mae ein hymagwedd at faterion sydd o bryder difrifol yn ystyried difrifoldeb y mater o'i gymharu â maint a chymeriad yr elusen a'r risg i'w hasedau, ei buddiolwyr, ei hunplygrwydd a'i henw da, yn ogystal â'r risg i'r cyhoedd ac i enw da'r sector elusennau yn gyffredinol.

Byddwn yn asesu ar unwaith yr holl adroddiadau digwyddiad difrifol yn wrthrychol er mwyn penderfynu ar yr ymateb mwyaf cymesur ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ein bod yn penderfynu a fyddwn yn ymwneud rhagor â'r mater, lefel y flaenoriaeth a sylw y byddwn yn ei rhoi a pha adran o'r Comisiwn fydd yn ymdrin â'r mater. Mae hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau arbennig, difrifoldeb a graddfa'r broblem, a'r dystiolaeth sydd ar gael.

Rydym yn trin pob achos yn unigol. Rydym yn ystyried ffactorau a all gynyddu neu leihau'r risgiau i'r elusen. Mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar raddfa'r sylw a rown i'r achos a'r adnoddau a ddefnyddiwn. Dyma rai enghreifftiau o'r ffactorau sy'n addasu ein hymagwedd:

- cyfran yr asedau sydd mewn perygl;
- proffil cyhoeddus yr elusen (er enghraifft, os yw'n enw cyfarwydd);
- proffil cyhoeddus y digwyddiad difrifol;

- y risg i enw da'r elusen ac i'r sector elusennau cyfan;
- i ba raddau y mae gwasanaethau wedi cael eu tynnu'n ôl o ganlyniad i'r digwyddiad difrifol;
- y risg o niwed pellach i'r elusen neu ei buddiolwyr; ac
- a yw'r elusen wedi cael ei hymchwilio'n flaenorol neu wedi derbyn cyngor ac arweiniad ar y mater.

Rhown rai canllawiau ar yr hyn sy'n ddifrifol neu'n sylweddol yn y nodiadau sy'n dilyn.

Hefyd rydym wedi adnabod sawl mater 'dim goddefgarwch', lle mae'r mater ei hun yn achosi pryder difrifol iawn ac felly byddwn bob amser yn delio ag ef fel mater o flaenoriaeth. Nid yw'r materion hyn mewn unrhyw drefn arbennig:

- cysylltiadau â sefydliadau gwaharddedig (wedi'u gwahardd);
- cysylltiadau elusennau â therfysgaeth neu gefnogi terfysgaeth, boed yn ariannol neu fel arall;
- camddefnyddio elusen i feithrin eithafiaeth droseddol;
- twyll a gwyngalchu arian;
- camddefnyddio buddiolwyr sy'n agored i niwed;
- peidio â chael mesurau digonol i ddiogelu buddiolwyr sy'n agored i niwed;
- ffug elusennau, wedi'u sefydlu at ddibenion anghyfreithlon neu amhriodol.

Gweithgarwch troseddol

Dylech roi gwybod i'r heddlu a'r Comisiwn am unrhyw weithgarwch troseddol amheus o fewn yr elusen neu sy'n cynnwys yr elusen, cyn belled â phosibl ar ôl y digwyddiad. Mae hyn yn cynnwys lle mae unigolyn efallai wedi cyflawni trosedd sy'n bwrw amheuaeth ar addasrwydd i ymwneud â'r elusen, boed fel ymddiriedolwr, aelod staff neu wirfoddolwr.

Beth os ydw i eisoes wedi rhoi gwybod i chi am y digwyddiad?

Os ydych eisoes wedi rhoi gwybod i ni amdano, nid oes rhaid i chi ddweud wrthym eto. Fodd bynnag, os ydych eisoes wedi adrodd am ddigwyddiad difrifol, neu amheuaeth neu honiad o ddigwyddiad difrifol i'r heddlu neu reolydd neu asiantaeth arall ond nid i ni, dylech ddweud wrthym ni am hyn hefyd.

Beth os yw'n honiad neu amheuaeth?

Dylech ddweud wrthym am hyn os ydych wedi derbyn gwybodaeth sy'n eich arwain at gredu neu amau fod digwyddiad difrifol wedi codi ac mae sail resymol gennych dros yr amheuaeth. Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gymryd camau priodol mewn ymateb i amheuaeth a byddwn yn disgwyl gwybod beth rydych wedi'i wneud. Un o'n swyddogaethau statudol yw adnabod ac ymchwilio i gamymddwyn neu gamreoli posibl wrth weinyddu elusennau. Rydym yn mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth wrth benderfynu ar ein hymateb rheoleiddio.

DIGWYDDIADAU DIFRIFOL

Twyll, lladrad neu golli cronfeydd sylweddol neu eiddo arall

Dylech roi gwybod i ni am unrhyw dwyll neu ladrad amheus neu sydd wedi digwydd (neu golled oherwydd unrhyw weithgarwch troseddol amheus neu sydd wedi digwydd) waeth beth fo graddfa'r cronfeydd neu werth yr eiddo arall dan sylw.

Hefyd dylech roi gwybod i ni am unrhyw golled sylweddol oherwydd achosion eraill. Fel canllaw, byddem yn disgwyl i chi adrodd am unrhyw golli cronfeydd neu eiddo arall sydd â gwerth o 20% neu fwy o incwm yr elusen, neu £25,000, p'un bynnag yw'r swm lleiaf. Ar gyfer symiau sy'n is na hynny dylech benderfynu a ydynt o bwys i'ch elusen a dylid adrodd amdanynt, gan ystyried incwm, gwaith a ffactorau addasu eraill yr elusen. Nid yw'n cynnwys gwerth cronfeydd buddsoddi a gollwyd yn ystod busnes arferol buddsoddi.

Symiau o arian sylweddol neu eiddo arall a roddwyd i'r elusen o ffynhonnell anhysbys neu heb ei gwirio

Gallai hyn olygu un cyfraniad unigol anarferol o fawr neu gyfraniadau llai rheolaidd o ffynhonnell na allwch ei hadnabod neu ni allwch ei gwirio. Gall cyfraniadau fod ar ffurfiau eraill heblaw arian, ee cyfrannau neu nwyddau.

Yma, byddem yn disgwyl i chi adrodd am unrhyw daliad unigol o'r fath sy'n hafal i neu'n fwy na £25,000, neu ddau daliad neu fwy sy'n adio i'r swm hwn. Gall y risgiau o dderbyn cyfraniad gan ffynhonnell anhysbys neu heb ei gwirio fod yn fwy pan fydd y cyfraniad yn gosod amodau penodol. Mae'n arfer gorau i wybod pwy yw'ch cyfranwyr, yn yr un modd â gwybod pwy yw'ch buddiolwyr.

Gofyniad cyfreithiol

Mae newidiadau i'r gyfraith dreth yn dilyn adran 54 Deddf Cyllid 2006 yn golygu bod rhaid i elusen gadw cofnodion o roddwyr a buddion sylweddol a dderbynnir gan y rhoddwyr hyn. Mae hyn er mwyn osgoi talu treth. Mae dyletswyddau cyfreithiol cyffredinol ymddiriedolwyr yn golygu bod rhaid iddynt weithredu gyda diwydrwydd dyladwy pan fyddant yn derbyn (ac yn gwario) cronfeydd.

Mae gan yr elusen (gan gynnwys unrhyw staff unigol, ymddiriedolwyr neu wirfoddolwyr) unrhyw gysylltiad hysbys neu honedig â sefydliad gwaharddedig (wedi'i waharddu) neu weithgareddau terfysgol neu anghyfreithlon eraill

Os daw hyn i'ch sylw, neu os ydych yn amau bod gan ymddiriedolwr arall, aelod staff, gwirfoddolwr neu unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'r elusen unrhyw gysylltiadau o'r fath, dylech roi gwybod i ni a'r heddlu ar unwaith.

Mae ein polisi ar elusennau a therfysgaeth i'w gweld ar ein gwefan. Mae ein Canllaw Gweithredol OG96 Elusennau a Therfysgaeth, sydd hefyd ar ein gwefan, yn esbonio mwy am yr egwyddorion ar gyfer trin honiadau o gysylltiadau elusennau â therfysgaeth; dyletswyddau ymddiriedolwyr; ac adrodd am amheuon.

Fe welwch restr o sefydliadau gwaharddedig ar wefan y Swyddfa Gartref yn www.homeoffice.gov.uk. Mae rhestr o endidau neu bobl ddynodedig o dan ddeddfwriaeth terfysgaeth i'w gweld ar wefan Trysorlys EM yn www.hm-treasury.gov.uk, gydag arweiniad ar ddynodi.

Mae person sydd wedi'i anghymhwyso rhag gweithredu fel ymddiriedolwr wedi bod yn gweithredu neu yn gweithredu ar hyn o bryd fel ymddiriedolwr elusen

Mae'r ffordd rydych yn ymdrin â'r math hwn o ddigwyddiad a'r ddau ddigwyddiad sy'n dilyn yn dangos a oes systemau priodol gennych mewn lle i wirio cymhwysedd ymddiriedolwyr a diogelu plant a buddiolwyr eraill sy'n agored i niwed.

Gofyniad cyfreithiol

Mae rhai pobl wedi'u hanghymhwyso yn ôl y gyfraith rhag gweithredu fel ymddiriedolwyr, gan gynnwys unrhyw un a ddisgrifir yn adran 72(1) Deddf Elusennau 1993. Fe gewch fwy o fanylion yn ein cyhoeddiad CC30 Cael Hyd i Ymddiriedolwyr Newydd - Yr hyn y mae angen i elusennau wybod.

Fel rheol mae'n drosedd i weithredu fel ymddiriedolwr tra'ch bod wedi'ch anghymhwyso oni bai ein bod wedi rhoi hepgoriad o dan adran 72(4) Deddf Elusennau 1993 (mae rhai darpariaethau arbennig yn gymwys i weinyddu cwmnïau elusennol). Yn ogystal â'r anghymhwysiadau uchod, sy'n gymwys i bob math o elusennau, mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 yn anghymhwyso rhai unigolion rhag dal ystod o swyddi, gan gynnwys bod yn ymddiriedolwr elusen, mewn elusennau plant. Nid oes awdurdod gennym roi hepgoriad ar gyfer y math hwn o anghymhwysiad.

Gall fod rhai cyfyngiadau hefyd yn nogfen lywodraethol yr elusen.

Fe welwch fwy o wybodaeth am anghymhwysiadau a hepgoriadau o anghymhwysiad ar ein gwefan.

Nid oes gan yr elusen bolisi ar gyfer diogelu ei buddiolwyr sy'n agored i niwed (ee, plant a phobl ifanc, pobl ag anableddau a'r henoed/pobl oedrannus)

Dylai ymddiriedolwyr weithredu systemau ar gyfer diogelu buddiolwyr sy'n agored i niwed. Fe welwch ein canllawiau ar ddiogelu plant ar ein gwefan.

Nid ydym yn gweinyddu deddfwriaeth ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ond rydym yn ymwneud â chynnal ffydd y cyhoedd mewn unplygrwydd elusennau.

Mae'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn gyfrifol am bolisi'r llywodraeth ar ddiogelu plant. Fe gewch fwy o wybodaeth yn www.everychildmatters.gov.uk.

Mae'r Adran Iechyd yn gyfrifol am bolisi'r llywodraeth ar ddiogelu oedolion agored i niwed. Cewch fwy o wybodaeth yn www.dh.gov.uk.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn newid. Am yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i www.everychildmatters.gov.uk/independentsafeguardingauthority/.

Gwiriadau CRB

Ydy gwiriadau CRB yn ofyniad cyfreithiol?

Mae cynnal gwiriad CRB yn golygu datgelu gwybodaeth sensitif a phersonol a fyddai'n gyfrinachol fel rheol, felly mae hawl gyfreithiol yn unig i gynnal gwiriadau ar gyfer rhai swyddi. Ond ar gyfer rhai swyddi penodol o fewn y grŵp hwn mae gwiriad CRB yn ofyniad cyfreithiol.

Mae ein gwefan yn rhoi manylion am yr achosion pan fydd gwiriadau CRB yn ofyniad cyfreithiol.

Beth ddylai ymddiriedolwyr ei wneud?

Rhaid i chi gynnal gwiriadau CRB os ydynt yn ofynnol yn gyfreithiol. Yn ogystal cynghorwn eich bod yn cynnal gwiriadau CRB os oes hawl gyfreithiol gennych i wneud hynny; bydd hyn yn sicrhau eich bod yn bodloni eich dyletswyddau fel ymddiriedolwyr. Dylid cynnal gwiriadau CRB rheolaidd ar ymddiriedolwyr sy'n parhau yn y swydd.

Yn y pen draw yr ymddiriedolwyr fydd yn penderfynu a oes gofyniad neu hawl gyfreithiol i gynnal gwiriadau CRB. Mae'r ddeddfwriaeth yn gymhleth: ceisiwch gyngor proffesiynol os oes angen.

Os nad ydych yn cynnal gwiriadau CRB ac mae buddiolwyr sy'n agored i niwed mewn perygl o ganlyniad, byddwn yn ystyried a oedd unrhyw ofyniad neu hawl gyfreithiol i gynnal gwiriadau. Bydd hyn yn ein helpu i benderfynu a yw'r elusen yn cael ei rheoli'n briodol neu beidio.

Nid oes unrhyw weithdrefn archwilio cefndir gan yr elusen i sicrhau bod ymddiriedolwr neu aelod staff yn gymwys i weithredu yn y swydd y mae'n cael ei benodi iddi

Nid yw'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i elusennau ofyn i ddarpar ymddiriedolwyr newydd arwyddo datganiad o'u cymhwysedd i weithredu ond mae'n arfer gorau i wneud hyn. Gallwch weld datganiad enghreifftiol ar ein gwefan.

Mae cyfyngiadau cyfreithiol ar bwy all fod yn ymddiriedolwr. Byddai pryder rheoleiddio difrifol gennym pe byddech wedi methu â gweithredu systemau i archwilio cefndir ymddiriedolwyr neu ddiogelu buddiolwyr sy'n agored i niwed.

Dylech sicrhau bod gweithdrefnau archwilio cefndir addas gennych ar gyfer staff a gwirfoddolwyr. Gallai'r rhain gynnwys gwiriadau CRB lle y bo'n briodol (gweler gwybodaeth am wiriadau CRB uchod)

Amheuon, honiadau ac achosion o gam-drin buddiolwyr

Dylech adrodd am hyn os: -

- bu digwyddiad lle mae buddiolwyr eich elusen wedi cael eu cam-drin neu'n cael eu cam-drin tra eu bod o dan ofal eich elusen neu gan rywun sy'n gysylltiedig â'ch elusen, ee ymddiriedolwr, aelod staff neu wirfoddolwr; a/neu
- bu digwyddiad lle mae rhywun wedi cael ei gam-drin ac mae hyn yn gysylltiedig â gweithgareddau'r elusen; a/neu
- mae honiadau wedi cael eu gwneud y gall hyn fod yn wir (waeth sut y digwyddodd y cam-drin honedig); a/neu
- mae sail gennych dros amau mai dyma yw'r achos.

Bu'r elusen yn destun ymchwiliad troseddol, neu ymchwiliad gan reolydd neu asiantaeth arall; neu mae sancsiynau wedi cael eu gosod neu mae pryderon wedi cael eu codi gan reolydd neu asiantaeth arall (ee yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Ofsted)

Dylech roi gwybod i ni os yw'r elusen wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliad troseddol neu os yw rheolydd neu asiantaeth arall wedi gosod unrhyw sancsiwn ffurfiol arni. Os nad ydych yn sicr pa 'bryderon' y dylid eu hadrodd i ni, dylech gyfeirio yn ôl i'r materion dim goddefgarwch (a restrir ar dudalen 28) fel man cychwyn. Gall ein timau roi cyngor ar sail achosion unigol.

Adrodd am ddigwyddiad

Cwestiynau y gallwn eu gofyn

Pan fyddwch yn adrodd am ddigwyddiad difrifol i ni, dylech roi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl i'n helpu i benderfynu pa gamau sy'n briodol i'w cymryd, os o gwbl. Mae'n bosibl na fydd yr holl fanylion gennych ond byddwch yn barod i ateb a darparu gwybodaeth am y digwyddiad. Ar gyfer unrhyw ddigwyddiad, byddai o gymorth pe byddech yn dweud wrthym:

- a yw'r digwyddiad wedi digwydd neu a fu honiadau/amheuon difrifol ei fod wedi digwydd;
- ble ddigwyddodd hyn a phwy oedd wedi cymryd rhan, gan gynnwys ei swydd yn yr elusen;
- ydy'r unigolyn hwn yn ymwneud â'r elusen o hyd;
- effaith y digwyddiad ar yr elusen neu ei buddiolwyr neu'r ddau;
- pa gamau, os o gwbl, sydd wedi cael eu cymryd ers y digwyddiad;
- a fu unrhyw gyhoeddusrwydd am y digwyddiad;
- ydy'r elusen wedi cynnal ei hymchwiliad ei hun i'r digwyddiad a beth fu'r canlyniad;
- ydy rheolydd neu asiantaeth gorfodi'r gyfraith neu asiantaeth y llywodraeth arall yn gysylltiedig â'r digwyddiad a pha gamau sydd wedi cael eu cymryd, os o gwbl.

Beth fyddwn yn ei wneud nesaf?

Yn dilyn adroddiadau neu honiadau byddwn yn asesu amgylchiadau pob achos. Gall hyn olygu casglu mwy o wybodaeth, profi unrhyw honiadau a chysylltu â rheolyddion eraill neu'r heddlu. Bydd y swyddog sy'n cynnal y gwerthusiad yn llunio barn am yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn defnyddio ein meini prawf asesu risg i benderfynu ar ba gamau sy'n briodol. Ni allwn ddweud pa gamau y byddwn yn eu cymryd ar gyfer unrhyw fater arbennig, oherwydd bydd ein hymateb yn dibynnu ar:

- yr elusen a'i gallu i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a'r argymhellion arfer gorau;
- y camau yr ydych eisoes wedi'u cymryd efallai i warchod yr elusen; ac
- a fydd ein hymyrraeth ni yn helpu'r sefyllfa.

Gallwn ymateb fel a ganlyn:

- nid yw materion rheoleiddio yn codi, neu nid ydynt yn ddigonol i gyfiawnhau gweithredu gan y Comisiwn;
- mae materion rheoleiddio yn codi, ac yn debygol o gael eu datrys orau drwy gyfrwng cyngor a chymorth;
- mae materion rheoleiddio wedi codi yn y gorffennol ond rydych chi wedi cymryd camau priodol i ddelio â'r rhain ac ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau pellach;
- yr heddlu neu asiantaeth arall sydd yn y sefyllfa orau i ddelio â'r mater;
- mae pryder gennym, ond yn hytrach na gweithredu, byddwn yn monitro'r elusen drwy arolygu agosach dros gyfnod; neu
- mae'r materion sy'n codi yn ddigon difrifol neu gymhleth ac felly byddwn yn ystyried cychwyn ymchwiliad (achosion prin).

Yn gyffredinol ceisiwn weithio gyda chaniatâd yr ymddiriedolwyr i ddatrys pryderon difrifol. Ein prif bryder bob amser yw'r elusen a ffydd y cyhoedd mewn elusennau yn gyffredinol.

Yn ansicr o hyd?

Os oes unrhyw bryderon neu ymholiadau gennych am yr hyn i'w adrodd neu sut y byddwn yn ymdrin â'r wybodaeth a ddarparwch, anfonwch e-bost at rsi@charitycommission.gsi.gov.uk neu ffoniwch 0845 3000 218, a bydd un o'n hymgynghorwyr yn eich helpu chi.

NODIADAU

NODIADAU

Anfonwch eich ffurflen wedi'i chwblhau i'r:
Comisiwn Elusennau
Blwch SP 1300
Lerpwl
L69 3BF

Ar gyfer pob ymholiad arall cysylltwch â ni yn:
Y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG

Ffôn:
0845 3000 218
0845 3000 197 (cyngor Gwasanaethau Ar-lein)

Ffôn testun:
0845 3000 219

E-bost:
enquiries@charitycommission.gsi.gov.uk

Gwefan:
www.charitycommission.gov.uk